# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD IAU, 12 HYDREF 2000

**Cychwynnodd y Cyfarfod am 9.06am**

**Gair o Deyrnged**
**Arweiniodd y Llywydd y Cynulliad mewn teyrnged i'r Gwir Anrhydeddus Donald Dewar, Gweinidog Cyntaf Senedd yr Alban.**

**9.24am**

**Penodiad i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â pharagraff (1) Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi Ieuan Wyn Jones (Plaid Cymru) i gymryd lle Dafydd Wigley (Plaid Cymru) fel aelod o'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52

**Cytunwyd ar y penodiad.**

**9.26am**

**Cwestiynau i Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant**
Gofynnwyd y **4** cwestiwn cyntaf

**9.41am**

**Cwestiynau i Carwyn Jones, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
Gofynnwyd y **5** cwestiwn cyntaf

**9.59am**

**Pwyntiau o Drefn**

1. **Richard Edwards** ar nifer y cwestiynau a gyflwynwyd gan y Grwp Llafur i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth. Atgoffodd y **Llywydd** yr aelodau am y cyfyngiad amser 3 munud ar gyfer ateb pob cwestiwn, gan atgoffa'r Cabinet i roi atebion byrrach.
2. **Jenny Randerson** yn gofyn a oedd Glyn Davies wedi datgan buddiant wrth ofyn ei gwestiwn. Dywedodd **Glyn Davies** nad oedd wedi gwneud hynny'n benodol, ond ei fod yn credu bod geiriad y cwestiwn yn dangos ei fuddiant mewn amaethyddiaeth. Dywedodd y **Llywydd** ei bod yn edrych yn debyg bod y cwestiwn yn dderbyniol, ond y byddai'n edrych eto ar y mater. Datganodd **Peter Rogers** bod ganddo fuddiant.
3. **Nick Bourne** yn gofyn i'r Prif Ysgrifennydd gynnal ymchwiliad i weld pam y bu i Swyddfa'r Wasg yn y Cynulliad ddweud wrth y BBC ddydd Mawrth bod darn o waith ar gyfer y diwrnod hwnnw wedi'i dynnu yn ôl cyn i'r Pwyllgor Busnes drafod y mater. Dywedodd **Jocelyn Davies** mai rôl y Pwyllgor Busnes oedd cynghori'r Trefnydd, a bod rhywfaint o anghwrteisi wedi'i weld yr wythnos hon. Ar ran y Trefnydd, dywedodd **Edwina Hart** y byddai adroddiad yn cael ei roi ar y mater. Dywedodd y **Llywydd** y byddai'n aros am yr adroddiad hwnnw cyn ystyried y mater ymhellach.

**10.09am**

**Rhoddodd y Llywydd longyfarchiadau i'r Prif Ysgrifennydd ar ddod yn aelod o'r Cyfrin Gyngor ddoe**

**Gwnaeth y Prif Ysgrifennydd Ddatganiad ar Ganolfan Mileniwm Cymru**

**11.00am**

**Gwnaeth y Prif Ysgrifennydd Ddatganiad ar Gyngor Celfyddydau Cymru**

**11.18am**

**Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cyllid Ddatganiad ar Geiswyr Lloches**

**11.40am**

**Cymeradwyo’r Gorchymyn Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2000**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 22.33 yn cymeradwyo drafft y Gorchymyn Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd y gorchymyn**

**11.48am**

**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Cynigiodd yr Ysgrifennydd Cyllid Gynnig Trefniadol dan Reol Sefydlog 6.16 i barhau â'r Ddadl ar yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, a ohiriwyd ar 12 Medi 2000**

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd y Cynnig Trefniadol**

**Cynigiodd yr Ysgrifennydd Cyllid Gynnig Trefniadol dan Reol Sefydlog 6.16 i ymestyn y Cyfarfod Llawn hyd 1.15pm**

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 40

**Cymeradwywyd y Cynnig Trefniadol**

**Dadl ar yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- yn croesawu’r dyraniadau ychwanegol sydd bellach ar gael i Gymru drwy Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant;
- yn cymeradwyo’r egwyddor bod y cronfeydd yn cael eu dyrannu yn ôl y blaenoriaethau a roddir yn www.gwellcymru.com, sef: cyfleoedd gwell i ddysgu; economi gryfach, well; iechyd a lles gwell; ansawdd bywyd gwell; a llywodraeth symlach, well;
- yn cymeradwyo’r egwyddor bod y dyraniadau’n hybu’r tair prif thema yn www.gwellcymru.com – datblygu cynaliadwy, mynd i’r afael ag anfantais gymdeithasol a chyfle cyfartal;
- yn ystyried barn ei bwyllgorau a’i aelodau wrth wneud dyraniadau ariannol; ac
- yn galw ar Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad i gyflwyno cynigion i gwrdd â’r amcanion hyn yn y gyllideb ddrafft fis Hydref.

*Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol. Ni ddewiswyd Gwelliant 2.*

**Gwelliant 1 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**

Ychwaneger ar ddiwedd pwynt bwled 1

Ond mae’n destun pryder iddo nad yw’r dyraniad yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at yr arian cyfatebol y bydd ei angen er mwyn galluogi Cymru i fanteisio’n llawn ar botensial y rhaglenni Ewropeaidd

**Gwelliant 2 - Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Yn y pwynt bwled cyntaf, ar ôl "Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant" ychwaneger "ond mae’n gresynu na ddarparwyd arian cyfatebol llawn ar ben y grant bloc ar gyfer rhaglen Amcan 1"

**Gwelliant 3 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**

Ychwaneger pwynt bwled 2 newydd

Yn cymeradwyo’r egwyddor o ddyrannu arian ar ben bloc Barnett ar gyfer y Rhaglenni Ewropeaidd, ond mae’n gresynu nad yw’r swm a ddyrannwyd ar hyn o bryd yn ddigon i alluogi Cymru i wneud defnydd llawn o Gronfeydd Strwythurol Ewrop a Mentrau Cymunedol;

**Gwelliant 4 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**

Newidier yr ail bwynt bwled presennol

Dileer popeth ar ôl "yn ôl" ac ychwaneger

"blaenoriaethau a fydd yn fodd i gyrraedd y nod o sicrhau ffyniant trwy Gymru benbaladr ac a fydd yn mynd i’r afael ag anghyfartaleddau o ran iechyd, addysg, cyflogaeth a meysydd polisi eraill"

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru);**

Ychwaneger ar ddiwedd pwynt bwled tri;
‘yn arbennig, drwy,

- wneud yn siwr bod digon o arian cyfatebol ar gael er mwyn sicrhau bod modd manteisio’n llawn ar y Rhaglenni Strwythurol Ewropeaidd presennol;
- buddsoddi ar fyrder er mwyn mynd i’r afael â’r llwyth mawr o waith atgyweirio adeiladau ysgolion sydd wedi cronni ac er mwyn lleihau maint dosbarthiadau;
- sicrhau bod y gallu gan yr NHS yn y tymor hir i ymgymryd â mwy o waith clinigol, a lleihau amserau aros;
- sicrhau mwy o ymrwymiad gan y Cynulliad i’r sector-amaeth-amgylcheddol;
- sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu diogelu a bod unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor mor isel â phosibl trwy roi mwy o arian i Lywodraeth Leol.’

**Gwelliant 6 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**

Dileer pwynt bwled 3 ac ychwaneger

yn cymeradwyo dyrannu yn unol â’i ddyletswydd i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy gan dalu sylw arbennig i fynd i’r afael ag anfantais gymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal.

**Gwelliant 7 - Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Yn y pwynt bwled olaf, ar ôl "yn y gyllideb ddrafft ym mis Hydref" ychwaneger "gan sicrhau bod y Grant Cynnal Refeniw yn ddigon i sicrhau na fydd unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor yn uwch na chwyddiant."

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 23; Cyfanswm 51

**Cymeradwywyd gwelliant 1**

**Gwelliant 3**

O Blaid 22; Ymatal 6; Yn erbyn 24; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 38; Ymatal 15; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**

O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Gwelliant 7**

O Blaid 23; Ymatal 6; Yn erbyn 25; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd gwelliant 7**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 38; Ymatal 16; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**12.33pm**

**Dadl Fer: Christine Chapman (Cwm Cynon);** Materion Symudedd a Mynediad i Bobl Ddall a Phobl â Nam ar eu Golwg

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.54pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 17 Hydref 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 10 HYDREF 2000**

Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd Dros Gymru Adroddiad Blynyddol 1990-00
Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru Adroddiad Blynyddol 1990-00